BETH YW'R PETH GORAU AM WEITHIO I GYRFA CYMRU?

Gyrfa Cymru
Careers Wales

"Mae gweithio i sefydliad lle mae pob aelod o staff, waeth beth yw ei rôl yn y cwmni, yn cefnogi ei gilydd er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i gwsmeriaid Gyrfa Cymru yn rhoi cymaint o foddhad i rywun".

Zoe, Cynghorydd Gyrfa dan Hyfforddiant

"Ar ôl dychwelyd i'r Cwmni ar ôl nifer o flynyddoedd yn mynd ar drywydd diddordebau eraill, roedd y broses gynefino yn gynhwysfawr ac roedd y cymorth a gefais gan fy nghydweithwyr yn wych. Mae fy nghydweithwyr a'r rheolwyr bob amser yn barod eu cymwynas ac yn rhoi anogaeth i mi, sy'n golygu ein bod yn gallu darparu'r gwasanaeth gorau i gwsmeriaid bob amser – yn arbennig yn ystod y cyfnod arbennig o anodd hwn".

Alyson, Cynghorydd Gyrfa

"Byddwn yn dweud mai'r peth gorau yw'r staff. Maen nhw'n gyfeillgar iawn a bob amser ar gael i helpu mewn unrhyw ffordd y gallant, sy'n ei wneud yn amgylchedd gwych i weithio ynddo. Byddwn hefyd yn dweud pan fydd y swyddfeydd ar agor, ei bod yn wych cwrdd â gwahanol fathau o bobl a'u helpu a darparu'r wybodaeth/help sydd ei angen arnyn nhw".

Emyr, Cynghorydd Gyrfa

"Rwy'n gwirioni ar yr ymddiriedaeth a'r ymreolaeth a gynigir gan y cwmni hwn, ac mae'r oriau hyblyg yn wych".

Bethia, Profwr Meddalwedd â Llaw

"Gweithio gyda phobl gefnogol o'r un anian â chi mewn amgylchedd cyfeillgar heb unrhyw hierarchaeth. Oriau gweithio hyblyg, gwyliau hael".

Valerie, Cynorthwyydd Gweinyddol

0800 028 4844
post@gyrfacymru.llyw.cymru
Sgwrs Ar-lein
gyrfacymru.llyw.cymru

BETH YW'R PETH GORAU AM WEITHIO I GYRFA CYMRU?

Gyrfa Cymru
Careers Wales

"Rwyf wedi gweithio i Gyrfa Cymru ers 30 o flynyddoedd ac rwy'n credu mai'r datganiad isod, yn ogystal â gweithio gyda'r bobl orau erioed yw'r rheswm pam nad wyf erioed wedi gadael – dw i ddim yn credu y gallwn gael lle gwell oherwydd mae'r cwmni yn gofalu amdanom – yn dda iawn!!
Mae Gyrfa Cymru yn darparu cyflog, amodau gwaith a buddion gwych i'w staff, gan gynnwys cynllun gofal iechyd preifat. Mae'r cwmni'n hyrwyddo ethos Datblygiad Proffesiynol Parhaus cadarn drwy annog staff i ddiweddaru eu hyfforddiant a'u dysgu'n rheolaidd ac yn rhoi cyfleoedd ac amser iddyn nhw gwblhau cymwysterau NVQ sy'n berthnasol i'w rôl".

Louise, Anogwr Cyflogadwyedd

"Mae Gyrfa Cymru yn gwmni gwych i weithio iddo oherwydd mae pob gweithiwr yn cael ei drin yn deg a gyda pharch. Mae'n eich gwerthfawrogi ac yn cynnig cymorth i chi mewn unrhyw fforddd y gall. Mae Gyrfa Cymru'n darparu amgylchedd gwaith gofalgar a buddiol iawn gyda phwyslais mawr ar dryloywder, cydraddoldeb ac amrywiaeth".

Karin, Cynorthwyydd Gweinyddol

"Alla'i ddim credu pa mor gyflym rwyf wedi ymgartrefu yn y rôl hon, roeddwn yn teimlo'n gartrefol ar unwaith! Rwy'n credu mai'r rheswm am hyn yw bod pawb mor groesawgar a chefnogol, lle bynnag yr ewch chi yn y cwmni. Fel aelod newydd, gallai gweithio o gartref yn ystod y cyfnod o gyfyngiadau symud fod wedi bod yn anodd, ond mae ein hyfforddiant wedi'i reoli mor dda nes ei fod wedi llwyddo i atgyfnerthu fy mherthnasoedd, yn arbennig gyda fy nhîm a'm cyd-hyfforddeion. Rwy'n wirioneddol edrych ymlaen at barhau i ddatblygu fy sgiliau a gweithio gydag ysgolion".

Christine, Cynghorydd Gyrfa dan Hyfforddiant

"Y staff, fy nghydweithwyr yn y swyddfa lle rwy'n gweithio a'r Tîm Cynghorwyr Cyswllt Busnes rwy'n rhan ohono - maen nhw wedi bod yn wych. Maen nhw wedi fy nghefnogi a fy helpu i ddeall fy rôl. Maen nhw wedi fy nghroesawu o'r dechrau ac roedd yn hawdd i mi ymgartrefu yma".
Heidi, Cynghorydd Cyswllt Busnes dan Hyfforddiant

0800 028 4844
post@gyrfacymru.llyw.cymru
Sgwrs Ar-lein
gyrfacymru.llyw.cymru

BETH YW'R PETH GORAU AM WEITHIO I GYRFA CYMRU?

Gyrfa Cymru
Careers Wales

"Rhaglen hyfforddi gynhwysfawr sydd wedi'i threfnu'n dda, a fydd yn eich herio ac yn rhoi sgiliau a gwybodaeth newydd i chi eu defnyddio yn eich gwaith gyda Chwsmeriaid. Yn ogystal â gwneud yn siŵr eich bod wedi eich hyfforddi'n dda i weithio'n broffesiynol gyda Chwsmeriaid, mae'r cwmni'n eich cefnogi i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl. Mae'r telerau a'r amodau'n rhagorol ac mae fy holl gydweithwyr yn canolbwyntio ar wneud gwaith gwych. Yn ogystal ag agwedd broffesiynol tuag at eu gwaith, mae fy nghydweithwyr yn gefnogol ac mae'r amgylchedd gwaith yn gyfeillgar a chefnogol".

Kim, Cynghorydd Gyrfa

"O'r diwrnod asesu a phob diwrnod wedi hynny, cewch eich, eich annog, eich gwerthfawrogi a rhoddir ymddiriedaeth ynoch, chymaint mwy. Y penderfyniad gorau rwyf wedi'i wneud yn ystod fy ngyrfa. Mewn cyfnod o ansicrwydd mae Gyrfa Cymru wedi addasu ac wedi parhau i ddarparu ei wasanaethau".

Rhys, Cynghorydd Gyrfa dan Hyfforddiant

"Mae yna lawer o bethau da am weithio i Gyrfa Cymru!
- cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl
- gweithio i gwmni sy'n rhoi pwyslais ar ddysgu gydol oes
- moeseg gwaith gwych
- amgylchedd gwaith gwych a chydweithwyr cyfeillgar a chefnogol
- oriau gweithio hyblyg, gwyliau blynyddol hael, cydbwysedd da rhwng bywyd teuluol a gwaith".

Sofia, Cynghorydd Gyrfa

"Mae yna gymaint o fanteision i weithio i Gyrfa Cymru, gan gynnwys y cynllun gofal iechyd preifat, y cynllun pensiwn, oriau hyblyg a'r holl hyfforddiant a dysgu parhaus a gynigir i ni. Drwy weithio i Gyrfa Cymru rwyf wedi cael cyfle i ddatblygu fy addysg ar ffurf NVQ sy'n gysylltiedig â fy rôl".

Natasha, Cynorthwyydd Gweinyddol

0800 028 4844
post@gyrfacymru.llyw.cymru
Sgwrs Ar-lein
gyrfacymru.llyw.cymru